Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr Nadolig 2007

Cyfarchion y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'n holl aelodau a'n cefnogwyr!

2007 - Edrych yn ôl dros y Flwyddyn

Gwelodd y 12 mis diwethaf rai o'r newidiadau mwyaf diddorol yn hanes gwleidyddol diweddar Cymru. Oherwydd bod y canlyniad yn un mor agos a'r ymwybyddiaeth gynyddol o effaith y Cynulliad ar fwydau pobl o ddydd i ddydd, dangoswyd diddordeb eang yn nhrydydd etholaidau'r Cynulliad ledled Cymru. Profodd y cyfryngau yng Nghymru gynulleidfaoedd uwch na'r arfer wrth i'r cyhoedd gymryd diddordeb yn y ddrama o ddyfalu pwy fyddai'n ffurfio Llywodraeth Cymru am y bedair mlynedd nesaf. Gwelodd yr IWA hefyd niferoedd uwch o bobl yn ymweld â gwefan y sefydliad yn ystod y flwyddyn, am yr un rhesymau fwy na thebyg.

Cyfraniad mwyaf gwerthfawr yr IWA i'r drafodaeth wleidyddol a gafwyd yn ystod blwyddyn yr etholiad oedd y gyfrol *Time to Deliver* a roddodd ganfyddiadau'r paneli a sefydlwyd i ystyried y materion pwysicaf sy'n wynebu Cymru yn y meysydd y mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb drosynt. Yn 2008 byddwn ni'n parhau i fonitro i ba raddau caiff y syniadau y sonnir amdanynt yn y gyfrol eu mabwysiadu yn ogystal â chadw llygad mwy cyffredinol ar waith y llywodraeth glymblaid. Cafodd manylion diddordol y trafodaethau a arweiniodd at ffurfio'r glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru ac o'r trafodaethau blaenorol aflwyddiannus ynghylch cynghreiriau posibl eraill – gan gynnwys y Glymblaid Enfys a agrymwyd, eu cynnwys mewn llyfr, *Crossing the Rubicon,* gan John Osmond, cyfarwyddwr y Sefydliad. Mae'r darn hwn o hanes parod ar gael o hyd – ffoniwch y swyddfa neu ewch i'n gwefan os hoffech chi brynu copi. Cynigir gostyngiad o 25% i aelodau'r IWA ar bob un o'n cyhoeddiadau.

Fel rhan o'r un gorchwyl, mae'n cylchlythyr gwleidyddol rheolaidd – *Assembly Bwletin Cynulliad* – wedi ei sefydlu ei hun erbyn hyn, gyda phedwar rhifyn eisoes wedi eu cyhoeddi a bydd yn parhau yn 2008 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn wleidyddol yng Nghymru ar ffurf hygyrch. Os nad ydych chi'n derbyn hwn eisoes ond yn dymuno ei dderbyn anfonwch e-bost i wales@iwa.org.uk

Gwelodd eleni hefyd nifer o gynadleddau diddorol ar, ymhlith pynciau eraill, Addysg Gymraeg ac Ysgolion Bach. Cynhyrchodd yr ail o'r ddwy, yn dilyn cyhoeddi cyfrol, *Cau Ysgolion Bach yng Nghymru: Tystiolaeth Newydd*, ddiddordeb mawr, gyda cheisiadau am yr adroddiad o bob rhan o'r DU a Chymru, ynghyd â derbyn sylw mawr ar y cyfryngau.

Digwyddiadau

Mae gennym nifer o ddigwyddiadau pwysig fel rhan o raglen y flwyddyn nesaf, gan ddechrau â chynhadledd ddydd Gwener 18 Ionawr yn Llandudno, *Uno'r Genedl:Sefydlu cysylltiadau integredig rhwng de a gogledd Cymru.* Cafodd y pwnc tragwyddol hwn sylw gan yr IWA ar ddiwedd yr 1990au gyda'r adroddiad ymchwil *Uno'r Genedl,* a gwelwyd peth gwelliannau o ran hygyrchedd rhwng de a gogledd Cymru yn y cyfamser, gan gynnwys cysylltiadau rheilffordd llawer gwell a'r

gwasanaeth awyrennau newydd rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy, fel y byddai teithwyr rheolaidd yn tystio, a bydd y gynhadledd yn archwilio rhai o'r dewisiadau a ddylai'r Llywodraeth fod yn eu hystyried os yw am gyflawni ei ymrwymiad i wella'r cysylltiadau.

Hefyd ar 18 Ionawr bydd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan, yn cymryd rhan mewn cinio gyda'r nos a drefnwyd gan gangen Gorllewin Cymru yr IWA yng Nghaerfyrddin. Mae dros 100 eisoes wedi cofrestru, ond mae rhagor o lefydd ar gael o hyd ar gyfer y noson a fydd yn sicr yn un gofiadwy.

Dair wythnos yn ddiweddarach, ddydd Iau 7 Chwefror, bydd cangen Gwent yr IWA yn edrych ar *Brofiad Blaenau'r Cymoedd.* Bydd y digwyddiad hwn yn ystyried y materion sydd wedi cyfrannu at y dwysedd problemau economaidd a chymdeithasol sydd i'w cael yn yr ardal o hyd er gwaethaf dros 70 mlynedd o dargedu cefnogaeth i'r ardal. Ymhlith y siaradwyr fydd Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog, yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, Patrick Lewis, Cyfarwyddwr Rhaglen Blaenau'r Cymoedd a Jonathan Adams o Capita Percy Thomas. Yn dilyn y digwyddiad cyhoeddir adroddiad yn edrych ar y ffyrdd y gellir symud yr ardal yn uwch i fyny'r agenda wleidyddol a chynnig argymhellion ar gyfer cymryd camau gweithredu.

Ar 28 Chwefror Caerdydd fydd y lleoliad ar gyfer cynhadledd atbenning ar *Adroddiad Stern: yr Her i Gymru.* Bydd yn edrych ar oblygiadau argymhellion yr adroddiad ar reoli effaith newid yn yr hinsawdd i Gymru a sut y gallai economi Cymru symud mewn cyfeiriad sy'n ymateb i'r adolygiad hwn. Cynhelir y digwyddiad ar y cyd â Cynnal Cymru, Fforwm Datblygu Cynaliadawy Cymru, a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'r cydweithrediad grymus hwn yn dangos mater cyn bwysiced yw newid yn yr hinsawdd.

Gwaith Ymchwil

Mae gennym raglen gynhwysfawr o waith ymchwil arall ar droed. Yn y Flwyddyn Newydd, cynhelir cyfres o seminarau ar y *Consensws Blaengar* sy'n sail i'r cytundeb clymblaid 'Cymru'n Un' rhwng Llafur a Phlaid Cymru. Bydd y project hwn, a gynhelir ar y cyd â Chanolfan Llywodraethu Cymru Prifysgol Caerdydd, yn arwain at gyhoeddi cyfrol mewn Cynhadledd yn y gwanwyn. Mae projectau ymchwil eraill yn edrych ar sut i greu Cymru ddwyieithog, datblygiad pellach Academi Iechyd Cymru a lansiwyd gan yr IWA y llynedd ac ar y gwrthdaro a'r cyfaddawdu sydd eu hangen i sicrhau bod Cymru'n elwa o gadw a datblygu'r ardaloedd dynodedig o harddwch naturiol eithriadol. Daw projectau eraill i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys archwiliad o'r Cyfryngau yng Nghymru, astudiaeth o'r rhesymau dros ymddieithriad pobl o addysg mewn rhai cymunedau yng Nghymru, sy'n effeithio ar gynnydd economaidd a symudedd cymdeithasol, ac ar y Morglawdd arfaethedig dros Fôr Hafren. Os hoffech chi gyfrannu at unrhyw un o'r projectau hyn, rhowch wybod i ni.

Cyhoeddiadau

Cyhoeddir dwy gyfrol newydd gan yr IWA yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd:

- *The Welsh Health Battleground: Policy Approaches for a Third Term*
- *Assembly to Senedd: the Convention and the Move Towards Legislative Powers*

Ceir manylion pellach am y digwyddiadau hyn ar ein gwefan www.iwa.org.uk yn gynnar ym mis Ionawnr 2008.

Materion yr IWA

Gobeithiwn wneud cynnydd ar nifer o brojectau mewnol eraill yn yr IWA yn 2008. Rydym yn derbyn cefnogaeth gan Brifysgol Abertawe ar gyfer ailwampio gwefan yr IWA'n llwyr, a gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at ei wneud yn fwy defnyddiol byth i'n haelodau, gan alluogi pobl i chwilio am ddeunydd sydd wedi ei gyhoeddi, ac i dalu ar-lein am gyhoeddiadau a digwyddiadau. Gobeithiwn hefyd sefydlu blog materion cyfoes Cymreig, gyda chyfraniadau rheolaidd gan ystod o sylwebyddion arbenigol. Rydym ni hefyd yn bwriadu dechrau'r gwaith o sefydlu cangen Caerdydd o'r IWA yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cangen a fydd yn gallu canolbwyntio ar rai o'r materion sy'n effeithio ar y ddinas a'i chefnwlad ehangach, gan gynnwys y Cymoedd.

Gallwn hefyd roi gwybod am rai newidiadau i gyfansoddiad bwrdd yr IWA. Aelodau newydd a fydd yn ymuno yw Sue Essex, cyn Weinidog yn Llywodraeth y Cynulliad, Rob Humphreys, Cyfarwyddwr Cymru'r Brifysgol Agored a Wendy Sadler, Merch y Flwyddyn Cymru 2007 a Chyfarwyddwr Science Made Simple, cwmni sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd.

Mae'r IWA yn parhau'n awyddus i ehangu ei aelodaeth er mwyn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i ni wneud gwaith pwysig dros Gymru, felly os ydych chi'n adnabod unrhyw un fyddai'n hoffi ymuno fel aelod cyffredin (neu dod yn gymrawd o'r IWA) rhowch wybod i ni. Byddem ni hefyd yn gwerthfawrogi derbyn unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu syniadau sydd gennych chi am y Sefydliad neu am Gymru'n gyffredinol.

Cyn cloi hoffem gynnig ein dymuniadau gorau i chi ar gyfer 2008 ac am eich cefnogaeth barhaus.

Os hoffech chi brynu unrhyw un o'n cyhoeddiadau neu fynychu unrhyw un o'n digwyddiadau, ewch i'n gwefan www.iwa.org.uk neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk Gallwch chi hefyd ffonio'r swyddfa ar 029 2066 6606.